## Cymunedau Dysgu Cynaliadwy

# Adroddiad Ymgynghori

**Ysgol Y Lawnt ac Gynradd Rhymni Uchaf**



Cynnig: **Creu adeiladau ysgol newydd Carbon Sero Net sy'n cynnwys cyfleusterau wedi'u rhannu ar gyfer Ysgol y Lawnt, Ysgol Gynradd Rhymni Uchaf ac at ddefnydd y gymuned.**

Y Cyfnod Ymgynghori Ffurfiol: 28 Medi 2023 – 9 Tachwedd 2023

Cyhoeddir yr adroddiad hwn yn unol â gofynion Deddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013 a Chod Trefniadaeth Ysgolion 2018.

Caerphilly County Borough Council / Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili

Cymunedau Dysgu Cynaliadwy / Sustainable Communities for Learning

Llywodraeth Cymru / Welsh Government



**Richard Edmunds**

Cyfarwyddwr Corfforaethol Addysg a Gwasanaethau Corfforaethol

# RHAGAIR

*"Gweithio gyda'n gilydd i sicrhau'r canlyniadau gorau i BOB un o'n plant"*

Mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili wedi dechrau ar daith gyffrous ond heriol o welliannau a newidiadau. Mae gennym uchelgeisiau beiddgar i ddarparu'r cyfleoedd gorau mewn bywyd i bob dysgwr ac rydym yn ymrwymedig i wneud hyn drwy ddarparu addysgu, dysgu ac arweinyddiaeth o ansawdd uchel ar draws ein hysgolion fel rhan o'n Strategaeth Addysyg – Ceisio Rhagoriaeth Gyda'n Gilydd.

Rydym wedi canolbwyntio ar wella canlyniadau pobl ifanc ac mae hyn yn parhau i fod yn flaenoriaeth wrth symud ymlaen, gan ymgorffori barn holistaidd am addysg. Mae'r Cyngor wedi mabwysiadu 'Gwella cyfleoedd addysg i bawb' fel ei Amcan Lles cyntaf ac mae wedi ymrwymo i raglen fuddsoddi uchelgeisiol Cymunedau Cynaliadwy ar gyfer Dysgu.

Mewn cydweithrediad â Llywodraeth Cymru, mae Rhaglen Band B Cymunedau Cynaliadwy ar gyfer Dysgu yn cefnogi buddsoddiad mewn addysg yn y Fwrdeistref Sirol. Ein huchelgais yw gwella cyflwr adeiladau ysgolion a galluogi'r defnydd cymunedol mwyaf.

Mae ein cynigion presennol yn cefnogi ein hymrwymiad i gynyddu effeithiolrwydd ysgolion a lleihau anghydraddoldeb mewn cyflawniad ar draws grwpiau; i ddeall anghenion plant sy'n fwy agored i niwed; hyrwyddo'r Gymraeg a chefnogi'r rhai na allant gael mynediad at lwybrau dysgu traddodiadol, er mwyn gwneud yn siŵr y bydd pawb yn elwa ar gyfleoedd dysgu a diwylliannol cyfoethog. Mae'r egwyddorion hyn yn helpu i lywio ein penderfyniadau a blaenoriaethu prosiectau.

Fel rhan o'r cynnig hwn, cynhaliwyd ymarfer ymgynghori yn unol â gofynion Cod Trefniadaeth Ysgolion 2018. Mae pob rhanddeiliad wedi cael cyfle i gyfranogi a gwneud sylwadau.

Cynhyrchwyd yr Adroddiad ar yr Ymgynghori hwn i grynhoi'r materion a godwyd gan yr ymgyngoreion yn ystod y cyfnod ymgynghori, gan gynnwys adborth gan Estyn. Mae'n ceisio darparu dogfen gytbwys ac agored i gefnogi'r Cabinet i wneud penderfyniad i fwrw ymlaen â'r cynnig, gwneud newidiadau neu beidio bwrw ymlaen o gwbl.

Rwy'n gobeithio y bydd y ddogfen hon yn ddefnyddiol i chi fel adlewyrchiad o'r gweithgareddau a gynhaliwyd hyd yma ac yn rhoi syniad i chi o'n taith, siapio ein dulliau cyflenwi a sicrhau bod y ddarpariaeth dysgu yn ganolog yn ein cymunedau.

## CYNNWYS


**Cyflwyniad**

- Crynodeb Gweithredol
- Goblygiadau Statudol
- Diben yr Adroddiad ar yr Ymgynghori
- Beth yw'r Rhaglen Cymunedau Cynaliadwy ar gyfer Dysgu?

**Cynnig**

- Beth ydym ni'n cynnig ei wneud?
- Beth sy'n llywio'r cynnig hwn?
- Gwerthusiad o'r Opsiynau
- Manteision ac Anfanteision

**Y Broses Ymgynghori**

- Y Broses Ymgynghori
- Ymgysylltu â Rhanddeiliaid
- Gwybodaeth am yr Ymgynghori
- Dulliau Ymateb

**Ymatebion i'r Ymgynghori**

- Ymatebion i'r Ymgynghori
- Ymateb y pwyllgor craffu
- Ymateb Estyn (crynodeb)

**Llais y Dysgwr**

- Ymgysylltiad Disgyblion / Cyngor Ysgol
    - Ysgol y mae'r Cynnig yn effeithio'n uniongyrchol arni
    - Ysgolion eraill y nodwyd eu bod wedi'u heffeithio

**Ystyriaethau Eraill**

- Egluro'r Ymgynghori
- Dewisiadau Amgen Rhesymol a Nodwyd Argymhelliad

**Camau Nesaf**

- Gwneud Penderfyniadau
- Adrodd, Hysbysu a Chyhoeddi Gwybodaeth

**Supporting Information**

- Atodiad 1: Dogfennau Ymgynghori Allweddol
- Atodiad 2: Ymateb Estyn (Fersiwn Llawn)


Mae'r ddogfen hon ar gael yn Gymraeg ac yn Saesneg. Gellir hefyd gofyn am y wybodaeth mewn fformatau ac ieithoedd eraill, yn ogystal ag ar ffurf copi caled. Cysylltwch â ni ar 01443 864817 i drefnu hyn.

# CYFLWYNIAD

**Crynodeb Gweithredol**

Mae angen i ysgolion yng Nghymru fod mewn cyflwr da a'u bod yn addas ar gyfer darparu addysg. Mewn rhai achosion, gellir moderneiddio ysgolion, eu hatgyweirio, adnewyddu, ehangu neu eu hail-adeiladu'n rhannol i gyflawni'r safonau sydd eu hangen ar gyfer addysgu a dysgu cyfoes. Fodd bynnag, nid yw rhai o'r ysgolion presennol yn y sefyllfa gywir ac mewn achosion o'r fath gallwn gynnig ysgolion newydd neu newidiadau i ysgolion presennol.

Mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili yn anelu at barhau i godi safonau ysgolion a gwella ansawdd yr amgylchedd dysgu er mwyn creu ysgolion yr 21ain ganrif sy'n addas i'r diben a rhoi'r dechrau gorau mewn bywyd i bob plentyn yng Nghaerffili.

Ar gyfer cynigion sy'n gysylltiedig ag ysgolion, mae Cod Trefniadaeth Ysgolion 2018 yn darparu canllawiau statudol clir ar y prosesau y mae angen eu dilyn. Cynnal ymarfer ymgynghori yw un o'r camau cychwynnol yn natblygiad unrhyw gais ac mae'n ddarostyngedig i broses graffu gan Lywodraeth Cymru a chymeradwyaeth y Cabinet.

O'r 28 Medi 2023 hyd at y 9 Tachwedd 2023, cynhaliwyd ymarfer ymgynghori.

Pwrpas yr ymgynghoriad oedd casglu barn ar y cynnig I creu adeilad ysgol newydd Carbon Sero Net sy'n cynnwys cyfleusterau wedi'u rhannu ar gyfer Ysgol y Lawnt, Ysgol Gynradd Rhymni Uchaf ac at ddefnydd y gymuned. Bydd y ddwy ysgol yn parhau i ddarparu addysg gynradd cyfrwng Cymraeg a chyfrwng Saesneg ac yn parhau fel endidau ar wahân, wedi'u lleoli o fewn yr adeilad deuddiben newydd.

Yr Adroddiad ar yr Ymgynghori hwn yw'r dull a ragnodwyd gan God Trefniadaeth Ysgolion 2018 er mwyn myfyrio, adolygu ac asesu er mwyn darparu'r wybodaeth sydd ei hangen ar y Cabinet i lunio penderfyniad gwybodus i fwrw ymlaen â'r cynnig i'r cam nesaf, diwygio'r cynnig gan ystyried gwybodaeth bellach sydd wedi dod i law drwy'r broses ymgynghori neu gau'r cynnig hwn heb gymryd camau pellach.

Mae'r Adroddiad wedi'i rannu'n adrannau gwahanol, gyda'r nod o:

- Amlinellu'r prosesau ymgynghori a gynhaliwyd
- Darparu eglurhad mewn cysylltiad â'r wybodaeth a ddarparwyd a'r ymgysylltiad ag ymgyngoreion
- Crynhoi pob un o'r materion a godwyd gan yr ymgyngoreion
- Cyflwyno ymateb llawn Estyn i'r ymgynghori
- Ymateb i faterion a godwyd drwy egluro, diwygio'r cynnig neu wrthod y pryderon, gyda rhesymau ategol

**Goblygiadau Statudol**

Cyhoeddwyd yr adroddiad hwn yn unol â gofynion Deddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013 a Chod Trefniadaeth Ysgolion 2018.

Cyhoeddir yr adroddiad ar yr Ymgynghori ar wefan Cymunedau Cynaliadwy ar gyfer Dysgu Caerffili ac mae copïau papur ar gael ar gais. Cyhoeddir yr holl wybodaeth yn Gymraeg a Saesneg. Hefyd, cynhyrchwyd crynodeb sy'n addas i blant er mwyn sicrhau bod yr wybodaeth yn cael ei darparu mewn fformat hygyrch i unrhyw blant a phobl ifanc sy'n cael eu heffeithio gan y cynigion.

**Diben yr Adroddiad ar yr Ymgynghori**

Mae cyhoeddi'r adroddiad hwn yn cyflawni dyletswydd y Cyngor yn unol â Chod Trefniadaeth Ysgolion 2018.

Roedd y cyfnod ymgynghori'n cyflwyno cyfle i bobl ddysgu am y cynnig, holi cwestiynau a rhoi sylwadau. Ni chafodd unrhyw ymatebion negyddol a wnaed yn ystod y cyfnod ymgynghori eu hystyried fel gwrthwynebiadau i'r cynnig ond fel sylwadau negyddol.

Dim ond ar ôl cyhoeddi hysbysiad statudol y gellir cofrestru gwrthwynebiadau i gynllun.

Mae'r Adroddiad ar yr Ymgynghori yn rhoi amlinelliad o'r prosesau a ddilynwyd, mae'n darparu eglurder ar y materion a'r sylwadau a dderbyniwyd gan yr ymgyngoreion, sicrhau bod safbwyntiau plant a phobl ifanc sy'n cael eu heffeithio gan y cynnig yn cael eu mynegi ac, yn y pen draw, mae'n darparu sydd ei hangen ar y Cabinet i wneud un o'r penderfyniadau canlynol:

- Bwrw ymlaen â'r cynnig
- Gwneud newidiadau i'r cynnig
- Peidio bwrw ymlaen â'r cynnig

Mae manylion llawn y broses o wneud y penderfyniad a chamau'r cynnig, fel y'u hamlinellir yng Nghod Trefniadaeth Ysgolion 2018, wedi'u cyhoeddi fel rhan o'r Ddogfen Ymgynghori gychwynnol ac mae ar gael i'r cyhoedd drwy wefan y Cyngor gyda chopïau papur ar gael ar gais.

**Beth yw'r Rhaglen Cymunedau Cynaliadwy ar gyfer Dysgu?**

Mae'r rhaglen Cymunedau Cynaliadwy ar gyfer Dysgu yn rhaglen buddsoddi cyfalaf strategol, bwysig yn yr hirdymor. Caiff ei hariannu ar y cyd rhwng Llywodraeth Cymru ac awdurdodau lleol a'i nod yw creu cenhedlaeth o ysgolion yr 21ain ganrif yng Nghymru.

Gwnaethom nodi bod angen buddsoddi mewn gwella adeiladau ein hysgolion, ateb y galw am addysg drwy gyfrwng y Gymraeg a'r Saesneg, lleihau nifer y lleoedd gwag a datblygu cyfleusterau a rennir ac sydd wedi'u cyd-leoli. Ein dyhead yw darparu seilwaith addysgol effeithlon ac effeithiol a fydd yn ateb y galw presennol am leoedd, a'r galw yn y dyfodol, ac i'r holl gyfleusterau y buddsoddir ynddynt fod yn ymrwymedig i wneud y defnydd gorau o'r seilwaith a'r adnoddau, gan sicrhau bod asedau ar gael i'r gymuned eu defnyddio.

Cafodd cyllid Band A yng Nghaerffili ei ddefnyddio ar gyfer y canlynol:

<table>
<tr><td rowspan="8"><br>Delwedd o Ysgol Uwchradd Islwyn</td><td>Enw'r Prosiect</td><td>Buddsoddiad Band A</td></tr>
<tr><td>✓ Ysgol Uwchradd Islwyn</td><td>£22.6m</td></tr>
<tr><td>✓ Ysgol Gyfun Cwm Rhymni, Campws y Gwyndy</td><td>£19.2m</td></tr>
<tr><td>✓ Ysgol Idris Davies 3-18</td><td>£8m</td></tr>
<tr><td>✓ Estyniad i Ysgol Trecelyn</td><td>£2.6m</td></tr>
<tr><td>✓ Gwelliannau i Ysgol Gyfun y Coed-duon</td><td>£2m</td></tr>
<tr><td>✓ Cae 3G Ysgol Gyfun y Coed-duon</td><td>£865k</td></tr>
<tr><td>✓ Gwelliannau i Ysgol Cae'r Drindod</td><td>£1.3m</td></tr>
</table>

Mae cyllid Band B yn cael ei ddefnyddio i ddarparu:

<table>
<tr><td rowspan="6"><br>Argraff artist o adeilad newydd YG Cwm Gwyddon</td><td>Enw'r Prosiect Buddsoddiad Band B</td></tr>
<tr><td>✓ Ysgol Gymraeg Cwm Gwyddon</td></tr>
<tr><td>✓ Ymestyn Ysgol Caeau'r Drindod</td></tr>
<tr><td>✓ Uned Cyfeirio Disgyblion, Pontllanfraith</td></tr>
<tr><td>✓ Uno Ysgol Llancaeach/Llanfabon</td></tr>
<tr><td>✓ Ysgol Gynradd Plasyfelin<br>‘Ein Hysgol Carbon Sero Net 1af’</td></tr>
</table>

Mae trawsnewid addysgol yn parhau i fod yn ganlyniad hanfodol i’n buddsoddiad ym Mand B y Rhaglen, a’r meysydd blaenoriaeth yw:

- Lleihau’r nifer o ysgolion sydd mewn cyflwr gwael
- Sicrhau bod gennym yr ysgolion o’r maint cywir yn y lleoliad cywir
- Darparu lleoedd digonol i ddarparu addysg cyfrwng Cymraeg a Saesneg
- Sicrhau defnydd effeithiol ac effeithlon o’r ystâd addysgol

Mae gwybodaeth bellach ar gael ar dudalennau gwe Cymunedau Cynaliadwy ar gyfer Dysgu

## CYNNIG

**Beth rydym yn cynnig ei wneud?**

Rydym yn cynnig gwneud y canlynol:

- **Adleoli Ysgol Y Lawnt ac Ysgol Gynradd Rhymni Uchaf**

Mae'r cynnig am geisio creu adeiladau ysgol newydd Carbon Sero Net sy’n cynnwys cyfleusterau wedi'u rhannu ar gyfer Ysgol y Lawnt, Ysgol Gynradd Rhymni Uchaf ac at ddefnydd y gymuned.

Argraff artist



Rhaid pwysleisio y byddai'r ddwy ysgol yn aros yn endidau annibynnol, gyda'r dalgylchoedd presennol yn aros yr un fath a phob ysgol yn meddiannu eu hardaloedd addysgu eu hunain o fewn yr adeilad newydd.

- Bydd yr adeilad newydd yn ymgorffori cyfleusterau ysgolion cynradd yn ogystal â gofal plant a darpariaeth Canolfan Adnoddau Arbennig ar wahân ar gyfer pob ysgol, un gydag 8 lle ar gyfer cyfrwng Cymraeg a'r llall yn darparu 8 lle ar gyfer cyfrwng Saesneg.

- Bydd yr adeilad newydd arfaethedig yn cynnwys derbynfa ddwyieithog a rennir a chyfleusterau cymunedol hyblyg y gellir eu haddasu er enghraifft neuadd y gellir ei hisrannu a chegin ar wahân fel bod darpariaeth yn cael ei chyflwyno yn y cyfrwng iaith priodol ar gyfer pob ysgol. Bydd cyfluniad y cyfleusterau hyn yn cael ei ddylunio mewn modd sy'n galluogi defnydd annibynnol gan bob ysgol yn y drefn honno os oes angen er mwyn lleihau'r amharu ar weithgareddau cyfredol neu eu hagor i'w defnyddio ar y cyd er mwyn darparu cydlyniant cymunedol ehangach.

- Bydd safle'r ysgol gynradd newydd wedi gwella gofod dysgu allanol a chyfleusterau a fydd yn cael eu gwahanu rhwng pob ysgol i darparu amgylcheddau addysgu a dysgu ysgogol gyda chyfleusterau'r 21ain ganrif yn canolbwyntio ar ddysgu, hunan-barch a lles yr holl ddisgyblion.

- Bydd y prosiect arfaethedig yn cymryd i ystyriaeth yr awydd i annog a hwyluso defnydd cymunedol o'r adeilad cyfan, mewn partneriaeth ag Ysgol y Lawnt ac Ysgol Gynradd Rhymni Uchaf. Bydd y dyluniad yn ceisio cynnwys mesurau i alluogi 'parthau' diogel y gellir eu defnyddio gan y gymuned ehangach. Dylid nodi y byddai unrhyw ddarpariaethau cymunedol bresennol yn yr ysgolion presennol yn cael eu hannog i adleoli i'r safle newydd a fydd â chyfleusterau wedi'u huwchraddio.

Bydd pob ysgol yn cadw ei threfniadau Corff Llywodraethol presennol, fodd bynnag, bydd cydbwyllgor yn cael ei sefydlu yn cynnwys cynrychiolwyr o'r ddwy ysgol i sefydlu telerau ac amodau ynglŷn â'r mecanweithiau gweithio sy'n ymwneud â chynnal a chadw, mynediad a pholisïau cyffredinol yn ymwneud â'r safle. yn ei gyfanrwydd.

Gan adeiladu ar y mandad Carbon Sero Net, mae ein cynnig wedi'i fframio i ddangos dyluniad arloesol a chydweithredol, gan gwmpasu'r amgylchedd adeiledig a'r dirwedd o'i amgylch mewn ffordd sy'n cyfoethogi bywyd beunyddiol disgyblion.

Bydd datblygu safle cynaliadwy, hyblyg yn galluogi:

- Gwneud y mwyaf o ofod ar gyfer ad-drefnu'r safle
- Cyfleusterau cymunedol a rennir gan gynnwys neuadd y gellir ei haddasu, ystafell gymunedol, cegin a storfa sy'n gallu darparu'r cynnig prydau ysgol am ddim cyffredinol
- Oes elfennol hirach
- Cost oes gyfan is
- Gwell gwerth am arian

*Er gwybodaeth, mae Cyngor Caerdydd wedi mabwysiadu dull tebyg fel rhan o'u prosiect Ysgol Gynradd Gabalfa ac Ysgol Gymraeg Glan Ceubal, lle mae'r ddwy ysgol wedi'u cydleoli mewn adeilad gyda chyfleusterau cymunedol a rennir ac yn parhau i weithredu'n llwyddiannus fel endidau ar wahân sy'n darparu addysg cyfrwng Cymraeg a Saesneg.*

**Beth sy'n llywio'r cynnig hwn?**

Mae cynigion wedi cael eu blaenoriaethu ar sail nifer o ffactorau gan gynnwys cyflwr adeiladu, tafluniad disgyblion a gyrwyr lleol a chenedlaethol, fodd bynnag, mae cyflenwi'r cwricwlwm a'r agenda Addysgol yn parhau i fod yn gwbl greiddiol.

**Gwerthusiad o'r Opsiynau**

Mae cynllunio a datblygu cynigion effeithiol ar gyfer trefniadaeth ysgolion yn hollbwysig i nod Llywodraeth Cymru o drawsnewid byd addysg yng Nghymru a darparu canlyniadau addysgol gwell, gydag ymrwymiad i gynyddu effeithiolrwydd ysgolion a lleihau anghydraddoldebau mewn lefelau cyflawniad rhwng ardaloedd, grwpiau ac unigolion breintiedig a difreintiedig.

Dilynwyd Canllawiau Llywodraeth Cymru ar Achosion Busnes mewn perthynas â defnyddio'r dull Fframwaith Opsiynau er mwyn nodi'r nifer mwyaf posibl o opsiynau dichonadwy, gaganolbwyntio ar y dimensiynau allweddol canlynol: cwmpas, datrysiad gwasanaeth, cyflenwi gwasanaeth, a threfniadau gweithredu ac ariannu.

Mae gwerthusiad o'r opsiynau yn darparu cyfle i helpu cynghorau i wneud penderfyniad gwybodus ar sail tystiolaeth ar sut i gyflenwi gwasanaethau. Gwna hynny drwy ystyried manteision ac anfanteision cymharol nifer o fodelau cyflenwi gwahanol (gan gynnwys y ffordd bresennol o gyflenwi'r gwasanaeth).

Mae'r fethodoleg yn helpu'r rhai sy'n gwneud penderfyniadau i roi ystyriaeth gymharol i'r pwyntiau canlynol:

- Buddioldeb – y graddau y mae pob opsiwn yn cyflawni amcanion a blaenoriaethau strategol rhanddeiliaid
- Hyfywedd – y graddau y mae pob opsiwn yn hyfyw ac yn gynaliadwy'n ariannol
- Ymarferoldeb – y graddau y gellir gweithredu pob opsiwn.

Fel rhan o'r cyflwyniad o'r cynnig presennol, cynhaliwyd gwerthusiad o'r opsiynau.

Roedd y cam gwerthuso opsiynau yn galluogi i wahanol fodelau cyflenwi gael eu harchwilio a'u gwerthuso yn erbyn set o feini prawf penodol, a fyddai'n aros at ddewis yr opsiwn a ffafrir.

| **Tabl 1: Arfarnu'r Rhestr Hir o Opsiynau** | |
|---|---|
| **Opsiwn** | **Opsiynau o'r Rhestr Hir: Disgrifiad** |
| **Opsiwn 1** | **Gwneud Dim:**<br>Dim newid i'r ysgolion presennol |
| **Opsiwn 2** | **Gwneud y Lleiafswm:**<br>Gwneud gwaith adnewyddu mewnol yn y ddwy ysgol |
| **Opsiwn 3a** | **Gwaith Canolraddol:**<br>Datblygu ar safle presennol Ysgol y Lawnt yn unig |

| | |
|---|---|
| **Opsiwn 3b** | **Gwaith Canolraddol:** Datblygu ar safle presennol Ysgol Rhymni Uchaf yn unig |
| **Opsiwn 3c** | **Gwaith Canolraddol:** Adleoli un/dwy ysgol i'r stoc ysgolion eraill sy'n bodoli eisoes (os oes un ar gael) |
| **Opsiwn 4** | **Gwaith Mawr:** Adeiladu dau adeilad ysgol newydd Carbon Sero Net ar gyfer pob ysgol ar y safle newydd |
| **Opsiwn 5** | **Gwneud yr Uchafswm:** Adeiladu un adeilad ysgol newydd Carbon Sero Net, gyda chyfleusterau cymunedol a rennir, ar gyfer y ddwy ysgol ar y safle newydd |

Cafodd pob opsiwn ei werthuso yn erbyn yr amcanion buddsoddi yn y Ddogfen Ymgynghori ac i ba raddau roedd yn bodloni'r Ffactorau Llwyddiant Critigol. Roedd y cam hwn yn rhan bwysig o'r broses er mwyn codi cwestiynau pwysig yn gynnar a helpu datblygu cynigion.

Arweiniodd hyn at naill ai opsiynau'n cael eu diystyru neu eu cario ymlaen i'w hystyried ymhellach ar y rhestr fer gydag opsiwn yn y pen draw wedi'i nodi fel y ffordd orau ymlaen. Mae'r ymarfer ymgynghori wedi'i seilio ar yr opsiwn sydd wedi'i nodi fel y ffordd orau ymlaen, gan fod yr holl opsiynau eraill wedi'u diystyru ar hyn o bryd.

Mae'r broses a gafodd ei defnyddio wedi'i hamlinellu'n fanwl yn y Ddogfen Ymgynghori a'r canlyniad oedd:

Cafodd **Opsiwn 5** ei nodi fel yr opsiwn gorau, sef, **Adeiladu un adeilad ysgol carbon sero net newydd, gyda chyfleusterau cymunedol a fydd yn cael eu rhannu, gan gynnwys y ddwy ysgol ar y safle newydd.**

## Manteision ac Anfanteision

Mae rhai heriau cyffredin y mae pob Awdurdod Lleol yn eu hwynebu wrth fabwysiadu cynigion newydd. Mae'r mwyafrif helaeth o bolisïau'r Cyngor yn cael eu cyflenwi drwy brosiectau a rhaglenni amrywiol. Felly, mae'n hollbwysig bod prosiectau'n cael eu cyflenwi'n llwyddiannus er mwyn gwireddu'r manteision a fwriadwyd i ddinasyddion.

Mae tystiolaeth yn dangos mai'r ffordd orau i sicrhau proses gyflenwi lwyddiannus yw drwy sefydlu prosiectau yn gywir o'r dechrau. Achosion mwyaf cyffredin methiant yw: diffyg amcanion clir, adnoddau annigonol, costau ac amserlen gor-uchelgeisiol, ymhlith achosion eraill sydd wedi effeithio ar y lefel a'r swm o fudd y gellir ei gwireddu, ac y gellir eu hosgoi drwy fynd i'r afael â hwy yn ystod camau cynnar prosiect.

Fel rhan o'r broses o ddatblygu'r cynnig, nodwyd nifer o fanteision ac anfanteision, fel y'u hamlinellwyd yn y Ddogfen Ymgynghori. Roedd y broses ymgynghori yn gyfle i ymgynghori â rhanddeiliaid perthnasol er mwyn deall beth oedd yn ganlyniadau cadarnhaol yn eu barn hwy a pha ganlyniadau negyddol y gellir eu creu.

Mae'r Cyngor yn cydnabod bod gan bobl anghenion, gofynion ac amcanion gwahanol a byddwn ni'n gweithio'n weithredol yn erbyn pob math o wahaniaethu drwy hybu cysylltiadau da a pharch at ein gilydd yn ein cymunedau a rhyngddyn nhw. Cafodd Asesiad Effaith Integredig ei gynnal i gychwyn trafodaeth a gwahodd sylwadau ynghylch a yw egwyddorion y cynnig yn cael eu cefnogi.

Mae'r holl sylwadau wedi'u cofnodi a bydd aelodau'r Cabinet yn cael copïau o'r holl ymatebion sydd wedi dod i law yn ystod y cyfnod ymgynghori fel rhan o'r broses gwneud penderfyniadau, a hynny yn eu fformatau gwreiddiol.

## Y BROSES YMGYNGHORI

### Y Broses Ymgynghori

Mae’r broses ymgynghori wedi dilyn canllawiau Llywodraeth Cymru, a gyflwynir yng Nghod Trefniadaeth Ysgolion 2018.

### Ymgysylltu â Rhanddeiliaid

Drwy fodel TîmCaerffili - Yn Well gyda'n Gilydd, mae'r Cyngor yn ymrwymedig i sicrhau y darperir gwasanaethau o ansawdd uchel, sy'n canolbwyntio ar ddinasyddion i'r cymunedau yn ein bwrdeistref sirol. Wrth sicrhau bod gwasanaethau cyhoeddus yn addas i'r dyfodol, rydym yn cydnabod bod angen defnyddio gweithgareddau ymgysylltu effeithiol sy'n rhan ganolog o'n proses benderfynu - Darllenwch fwy am ein dull o Ymgynghori ac Ymgysylltu yma

Ar gyfer y cynnig hwn, mae'n rhaid i'n proses ymgynghori ddilyn canllawiau statudol Llywodraeth Cymru fel y nodir yng Nghod Trefniadaeth Ysgolion 2018.

Mae'r ymgyngoreion a ganlyn wedi cael gwybod am ein cynigion drwy lythyr neu e-bost:

| **Tabl 2: Rhestr o Ymgyngoreion** | |
|---|---|
| Disgyblion/Cynghorau Disgyblion * | Gweinidogion Cymru |
| Rhieni, darpar rieni, gwarcheidwaid a gofalwyr holl ddisgyblion* | Pob Aelod Cynulliad ac Aelod Seneddol sy'n cynrychioli'r ardal a wasanaethir gan yr ysgolion y mae'r cynnig yn effeithio arnynt yn uniongyrchol* |
| Pennaeth, Staff a Chyrff Llywodraethu* | Aelodau lleol o Gyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili |
| Cyfarwyddwyr Addysg Awdurdodau Cyfagos | Cynghorau Cymuned a Thref lleol |
| Cymdeithasau Staff Addysgu a Staff Cymorth | Estyn |
| Y Rhwydwaith Rhieni | Y Fforwm Addysg Gymraeg |
| Cyfarwyddwyr / Byrddau Addysg Esgobaethol | Consortiwm De Ddwyrain Cymru (EAS) |
| Comisiynwyr yr Heddlu a Throseddu Heddlu Gwent a Heddlu De Cymru | Cynghrair Trafnidiaeth De-ddwyrain Cymru (SEWTA) |
| Y Bartneriaeth Datblygu'r Blynyddoedd Cynnar a Gofal Plant | Mudiad Meithrin, Menter Iaith a darparwyr meithrin gwirfoddol |

**ysgolion y bydd y cynnig yn effeithio'n uniongyrchol arnynt, neu y mae'r cynnig yn debygol o effeithio arnynt, yn unig*

Yn ogystal â chynghori'r rhai roedd yn rhaid i ni eu cynghori o dan y meini prawf rhanddeiliaid, mae'r canlynol hefyd wedi cael eu hysbysu am ein cynigion yn ysgrifenedig:

- Pob pennaeth ysgol yn y Fwrdeistref Sirol
- Comisiynydd y Gymraeg

**Gwybodaeth am yr Ymgynghori**

Mae Cod Trefniadaeth Ysgolion 2018 yn datgan, wrth gynnal proses ymgynghori ar gynnig sy'n ymwneud ag ysgol, mae'n rhaid i'r Cyngor gyhoeddi gwybodaeth er mwyn galluogi proses dryloyw, gytbwys ac agored ar gyfer gwneud penderfyniadau.

Mae'n rhaid cyhoeddi'r ddogfen ymgynghori ar ddiwrnod ysgol ac mae'n rhaid caniatáu o leiaf 42 diwrnod i'r ymgyngoreion ymateb i'r ddogfen, gydag o leiaf 20 o'r rhain yn ddyddiau ysgol fel y'u diffinnir gan Adran 579 Deddf Addysg 1996. Agorodd y cyfnod ymgynghori ddydd Iau 28 Medi 2023 (diwrnod ysgol) a daeth i ben am hanner nos, dydd Iau 9 Tachwedd 2023.

Fel rhan o'r cynnig hwn, cafodd y ddogfennaeth ganlynol ei chynhyrchu:

- Llythyr Hysbysu'r Ymgynghori
- Dogfen Ymgynghori
- Crynodeb o'r Ymgynghori sy'n addas i Blant
- Ffurflen Ymateb i'r Ymgynghori
- Asesiad Effaith Integredig

Cyhoeddwyd yr holl ddogfennaeth yn Gymraeg a Saesneg, gan gydymffurfio â gofynion Safonau'r Gymraeg. Roedd gwybodaeth ar gael hefyd mewn ieithoedd a fformatau eraill ar gais, fodd bynnag, ni dderbyniwyd unrhyw geisiadau o'r fath fel rhan o'r broses hon.

Cyflwynwyd copïau papur o'r ddogfennaeth i'r ysgolion a oedd yn cael eu heffeithio'n uniongyrchol gan y cynnig, gan gynnwys crynodeb addas i blant i'w drafod gyda'r disgyblion.

Yn ogystal â hysbysu'r ymgyngoreion yn ysgrifenedig ynghylch y cynnig, cefnogwyd y broses o rannu gwybodaeth drwy wasanaeth negeseuon testun yr ysgol yn uniongyrchol i rieni a staff.

Cynhyrchwyd crynodeb addas o'r ymgynghori i blant er mwyn cefnogi'r broses ymgynghori gyda disgyblion yr ysgolion sy'n cael eu heffeithio ac sy'n cyflwyno gwybodaeth mewn ffordd sy'n berthnasol i'w dealltwriaeth debygol hwy, ac a oedd yn eu galluogi i gyfranogi yn y broses ymgynghori a ffurfio barn wybodus. Yn ogystal â'r ddogfennaeth hon, rhoddodd staff addysgu lleol gymorth i blant a phobl ifanc a oedd yn dymuno cyflwyno ymateb i'r ymgynghoriad yn eu dewis fformat ac iaith.

Defnyddiwyd cyfryngau cymdeithasol y Cyngor hefyd.

**Dulliau Ymateb**

Fel yr amlinellwyd yn y Ddogfen Ymgynghori, gallai unrhyw un a oedd yn dymuno gwneud sylwadau ar y cynnig wneud hynny'n ysgrifenedig drwy:

- Cwblhau ffurflen ymateb ar-lein ar wefan y Cyngor
- Cwblhau profforma ymateb a'i bostio i'r Tîm Cymunedau Cynaliadwy ar gyfer Dysgu yng Nghaerffili
- E-bostio sylwadau i'r Tîm Cymunedau Cynaliadwy ar gyfer Dysgu yng Nghaerffili

Hefyd, cafodd disgyblion yr ysgolion mae'r cynnig yn effeithio'n uniongyrchol arnyn nhw gyfle i gymryd rhan yn y broses drwy sesiynau â ffocws ar lais y disgyblion.

Cafodd y ffurflenni ymateb eu cynllunio mewn ffordd a fyddai'n casglu'r wybodaeth berthnasol a oedd ei hangen i gyflawni goblygiadau'r Cyngor yn unol â'r Cod Trefniadaeth Ysgolion ar gyfer cynnal ymgynghori sy'n gysylltiedig ag addasiad rheoledig i ysgol arbennig.

Cynhaliwyd yr ymgynghori hwn er mwyn casglu barn yr ymgyngoreion ynghylch y cynnig i adleoli'r ysgol. Mae'r safbwyntiau hynny wedi'u hymgorffori yn y ddogfen hon, a byddant yn cael eu cyhoeddi a'u hystyried gan y Cabinet wrth benderfynu i fwrw ymlaen i'r cam hysbysiad Statudol ai peidio. Cynhelir Proses Cais Cynllunio ar wahân mewn cysylltiad â'r cynnig hwn. Disgrifiwyd y prosesau statudol ar wahân yn y ddogfen ymgynghori ac mae unrhyw sylwadau negyddol a dderbyniwyd fel rhan o'r broses wedi'u cofnodi fel rhai negyddol.

## YMATEBION I'R YMGYNGHORI

**Ymatebion i'r Ymgynghori**

Cafwyd cyfanswm o 19 o ymatebion yn ystod y broses ymgynghori.

*Sylwer:* Nid yw'r ffigur uchod na'r data yr adroddwyd arno ar gyfer Cwestiynau 1 i 7 yn cynnwys yr ymatebion a dderbyniwyd gan Estyn, y Pwyllgor Craffu nac a gasglwyd fel rhan o unrhyw sesiynau ymgysylltu â disgyblion. Amlinellir y rhain yn fanylach yn ddiweddarach yn y ddogfen hon.

Roedd cyfanswm yr ymatebion a gafwyd i'r gwahanol ddulliau a ddefnyddiwyd yn ystod y cyfnod ymgynghori fel a ganlyn:

- 18 o ymatebion trwy gyfrwng Arolwg ar Lein
- 1 o ymatebion trwy e-bost
- 0 o ymatebion trwy'r post

Derbyniwyd 1 ymateb o'r 19 (5%) yn Gymraeg.

Ni chafodd y Tîm Cymunedau Dysgu Cynaliadwy unrhyw geisiadau i'r ddogfennaeth gael ei darparu mewn unrhyw fformat nac iaith arall.

**CWESTIWN 1**

Rhoddwyd trosolwg i'r ymgynghorai o'r amcanion buddsoddi ar gyfer y Rhaglen Cymunedau Cynaliadwy ar gyfer Dysgu a gofynnwyd iddynt gadarnhau'r cynnig yr oeddent yn ymateb iddo fel rhan o'r broses.

**CWESTIWN 2**

Gofynnwyd i'r ymgyngoreion ddewis categori oedd yn eu disgrifio orau mewn perthynas â'r cynnig ar gyfer yr ysgol dan sylw. Roedd y dewisiadau ar gyfer hynny wedi'u pennu i ddangos ymgysylltiad gyda'r grwpiau allweddol sydd wedi'u hamlinellu yn y Cod Trefniadaeth Ysgolion. Roedd y rhain yn cynnwys disgybl, rhiant, aelod o staff, llywodraethwr ysgol, aelod etholedig, trigolyn lleol, grŵp ac arall.

O'r rhai a ymatebodd, cafodd y categorïau canlynol eu dewis:

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| 5%<br>(1)*<br>Disgybl | 32%<br>(6)*<br>Rhieni | 10%<br>(2)*<br>Aelodau Staff | 5%<br>(1)<br>Aelodau Etholedig | 32%<br>(6)<br>Preswylydd Lleol | 11%<br>(2)<br>Grŵp | 5%<br>(1)<br>Arall |

* *Yn unol â dadansoddiad:*

- Methodd ymateb 1 disgybl â darparu unrhyw wybodaeth adnabyddadwy.
- O'r 6 rhiant a ymatebodd, mae gan 2 blant yn mynychu Ysgol Y Lawnt a 4 â phlant yn mynychu Ysgol Gynradd Rhymni Uchaf.
- Mae'r ddau aelod o staff yn mynychu Ysgol Gynradd Rhymni Uchaf.

Os oedd pobl yn dewis 'Arall' roedd cyfle wedyn iddynt egluro ymhellach fel y dymunent.

Mae'r holl sylwadau wedi'u cofnodi a bydd aelodau'r Cabinet yn cael copïau o'r holl ymatebion sydd wedi dod i law yn ystod y cyfnod ymgynghori fel rhan o'r broses gwneud penderfyniadau, a hynny yn eu fformatau gwreiddiol.

**CWESTIYNAU 3 i 7**

Fel rhan o'r broses ymgynghori, gofynnwyd am wybodaeth gysylltu sylfaenol, yn cynnwys enw, cyfeiriad ac e-bost. Roedd y data seicograffig yma'n cael ei gasglu fel cymorth i gael darlun o'r ymgyngoreion ac i alluogi tîm Cymunedau Cynaliadwy ar gyfer Dysgu ddeall tueddiadau mewn data ymateb a grwpiau ymateb. Byddai hynny o gymorth i roi'r Adroddiad Ymgynghori hwn at ei gilydd.

Gan fod modd casglu gwybodaeth ar gyfer llawer o ddibenion, fe gyfeiriwyd at hysbysiad preifatrwydd Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili ar gyfer ymgynghori/arolygon. Mae'r hysbysiad yn rhoi amlinelliad o'r diben a'r sail gyfreithiol ar gyfer casglu'r wybodaeth, defnyddio data a'r cyfnodau amser i gadw data.

Yng nghyswllt yr Adroddiad Ymgynghori, bydd y Cabinet yn cael crynodeb ar wahân o'r sylwadau a gafwyd wrth ymgynghori. Dylid nodi bod unrhyw sylwadau y barnwyd eu bod yn dramgwyddus neu'n rhoi arwydd o enw pwy oedd yn ymateb wedi eu tynnu neu eu golygu.

**CWSTIWN 8**

Fel rhan o'n dyletswydd o dan y Cod Trefniadaeth Ysgolion 2018, rhaid i'r ymgyngoreion gael y dewis i ofyn i gael eu hysbysu pan fydd yr Adroddiad Ymgynghori'n cael ei gyhoeddi. Fe gasglwyd gwybodaeth ar gyfer cysylltu â hwynt i'r diben hynny, a'r dewis cyntaf ar gyfer cysylltu fydd trwy e-bost, os cafwyd cyfeiriad e-bost oddi wrth yr ymatebydd.



Mae 16 o'r 19 wnaeth ymateb wedi gofyn i gael eu hysbysu. Cafodd yr unigolion hynny eu hychwanegu at y rhestr hysbysu a byddwn yn cysylltu â hwynt ar yr un adeg â'r rhanddeiliaid pan ddaw'r ddogfen hon yn gyhoeddus trwy gyfrwng gwefan y Cyngor. Bydd copïau papur o'r dogfennau ar gael os gofynnir amdanynt.

**CWESTIWN 9**

Cafodd yr ymgyngoreion eu gofyn i nodi"I ba raddau ydych chi'n cytuno â'r datganiadau canlynol?"
O'r rhai a ymatebodd i'r cwestiynau hyn:

1) Byddai Ysgol Y Lawnt yn elwa o ysgol a chyfleusterau Newydd
   Cytunodd 13, anghytunodd 3, nid oedd 2 yn teimlo'n gryf y naill ffordd na'r llall

2) Byddai Ysgol Gynradd Rhymni Uchaf yn elwa o ysgol a chyfleusterau Newydd
   Cytunodd 13, anghytunodd 3, nid oedd 2 yn teimlo'n gryf y naill ffordd na'r llall

**CWESTIWN 10**


Gall yr ymgyngoreion roi eu barn o blaid neu yn erbyn y cynigion.


Gofynnwyd i'r ymgyngoreion ddweud pa un o'r datganiadau a ganlyn sydd agosaf at eu barn nhw ar y cynnig. Fe'u hatgoffwyd i ddarllen y dogfennau ymgynghori cyn rhoi eu hymateb yn ystod yr ymgynghori, ac na fyddai sylwadau anffafriol a wnaed yn ystod y cyfnod ymgynghori'n cael eu trin fel gwrthwynebiadau ar yr adeg honno.


Dyma'r dewisiadau a roddwyd:


- Yn cefnogi'r cynnig
- Dim barn gref y naill ffordd na'r llall
- Ddim yn cefnogi'r cynnig

O'r 19 o ymatebion a ddychwelwyd, roedd 9 yn cefnogi'r cynnig, nid yw 7 yn ei gefnogi, roedd 3 naill ai ddim yn teimlo'n gryf y naill ffordd na'r llall neu wedi methu â dewis opsiwn.


Ymatebion Cyffredinol yr Ymgynghorai (%)
47%
(9)
37%
(7)
16%
(3)
Yn cefnogi'r cynnig
Dim barn gref y naill ffordd na'r llall
Ddim yn cefnogi'r cynnig


"Yn cefnogi'r cynnig"
47% (9) ymatebion cyffredinol wedi'u rhannu yn ôl categori
Arall
11% (1)
Rhieni - YGRU
34% (3)
Preswylydd Lleol
22% (2)
Aelod Etholedig
11% (1)
Aelodau Staff
11% (1)
Grwp
11% (1)




Mae'n briodol tynnu sylw'r Cabinet at y posibilrwydd y gallai'r sylwebaeth a roddir fel rhan o Gwestiwn 11 i 13 gynnig golwg ddyfnach i farn yr ymgyngoreion. Hefyd ni ddylai'r ymateb a roddwyd i gwestiwn 10 gael ei ystyried ar ei ben ei hun, er enghraifft, pan fydd yn ymatebion dyblyg neu ymatebion lluosog gan un cartref.

**CWESTIYNAU 11 i 13**

Blwch testun rhydd oedd hwn a oedd yn galluogi ymgyngoreion i roi sylwadau ychwanegol ynghylch pam eu bod yn cytuno neu'n anghytuno â'r cynnig fel mae wedi'i amlinellu yn y Ddogfen Ymgynghori, neu i awgrymu newidiadau neu opsiynau amgen sy'n gallu gwella'r cynnig.

Cafodd yr holl sylwadau eu darllen a'u dadansoddi.

Daeth rhai themâu cyffredinol yn amlwg o’r ymgynghori:

- Lleoliad Arfaethedig
- Dylunio Ysgol
- Effaith ar yr Iaith Gymraeg
- Ariannu
- Llinellau Amser y Prosiect

Mae'r themâu hyn wedi'u hamlinellu'n fanylach yn yr adran am ‘Egluro'r Ymgynghoriad’.

**CWESTIYNAU 14 i 19**

Yn unol â Chynllun Cydraddoldeb Strategol 2016-2020 Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili a’r ddogfen Canllawiau Ymgynghori a Monitro 2016, fe gynhwyswyd fersiwn byrrach o’r holiadur Cydraddoldeb a Monitro fel rhan o’r ymateb i’r ymgynghori. Roedd hynny i gefnogi cynllunio effeithiol ac i sicrhau sampl cynrychioliadol er mwyn canfod unrhyw drafferthion o ran cydraddoldeb.

Dyma’r canlyniadau ar gyfer y rhai wnaeth gwblhau’r adran Cydraddoldeb yn yr ymatebion:

| **Rwy’n …** | | | |
|---|---|---|---|
| Benyw | 14 | Am hunan ddisgrifio | 0 |
| Gwryw | 2 | Gwell gen i beidio â dweud | 3 |

| **Oedran** | | | |
|---|---|---|---|
| O dan 16 | 0 | 40-65 | 7 |
| 16-25 | 2 | Dros 65 | 1 |
| 26-39 | 6 | Gwell gen i beidio â dweud | 3 |

| **Anabledd** | | | |
|---|---|---|---|
| Ydw | 3 | Nac Ydw | 12 |
| Gwell gen i beidio â dweud | 4 | | |

| **Hoff Iaith** | | | |
|---|---|---|---|
| Saesneg | 14 | Arall | 0 |
| Cymraeg | 2 | Gwell gen i beidio â dweud | 3 |

**CWESTIYNAU 20 i 21**

Rhaid i ni sicrhau bod y Gymraeg yn cael ei thrin yn yr un modd â'r Saesneg.

Cafodd ymatebwyr gyfle i wneud awgrymiadau am sut gallwn ni gynyddu cyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg neu gael mynediad at wasanaethau yn Gymraeg. Yn ogystal, roedd ymatebwyr yn gallu rhoi sylwadau am sut i newid y cynnig i gael (rhagor o) effaith gadarnhaol ar y Gymraeg.

Roedd yr ymatebion yn cynnwys:

- Darparu cyllid ychwanegol i Ysgolion Cymraeg yn unig
- Diwygio'r cynnig i Ysgol Gymraeg yn unig
- Cyrsiau Iaith Gymraeg
- Gweithio gyda Sefydliadau Cymraeg

**CWESTIWN 22**

O ran y goblygiadau cydraddoldeb y tynnwyd sylw atynt gan ymatebwyr, nododd 1 ymatebwr fod eu penderfyniad wedi'i ddylanwadu ar sail aelod o'r teulu, ond ni nododd yr un ohonynt oblygiadau yn unol â'r rhestr a amlinellwyd yn y ffurflen ymateb i'r ymgynghoriad.

**Ymateb y Pwyllgor Craffu**

Mae Pwyllgor Craffu Addysg a Gwasanaethau Cymdeithasol y Cyngor yn ymgynghorai ar gyfer unrhyw ddatblygiadau polisi neu wasanaeth mewn perthynas ag addysg yn y Fwrdeistref Sirol.

Cafodd cyfarfod aml-leoliad ei gynnal (Tŷ Penallta ac MS Teams) ddydd Mawrth 17 Hydref 2023 am 5.30pm.

Fel rhan o'r cyfarfod hwn, cafodd Rhaglen Band B Cymunedau Dysgu Cynaliadwy ac ymgynghoriad mewn perthynas â'r cynnig ar gyfer Ysgol y Lawnt ac Ysgol Gynradd Rhymni Uchaf fel eitem 7 ar yr agenda.

Roedd yr holl ddogfennau ymgynghori ar gael i'r aelodau fel rhan o'r pecyn adroddiadau agenda ac roedd swyddogion sy'n gysylltiedig â'r cynnig ar gael i ateb cwestiynau. Mae unrhyw ymholiadau a godwyd wedi'u cydnabod a'u cynnwys fel rhan o'r dadansoddiad themâu.

Mae recordiad o’r sesiwn ar gael i’w weld:

Cyfarfod Pwyllgor Craffu Addysg a Gwasanaethau Cymdeithasol

**Ymateb Estyn**

O dan Ddeddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013 a’r Cod Trefniadaeth Ysgolion 2018 mae angen i’r Cyngor, fel y cynigiwr, yrru hysbysiad o’r ymgynghori i Estyn.

Estyn yw arolygiaeth addysg a hyfforddiant Cymru a’u gweledigaeth hwy yw gwella ansawdd addysg a hyfforddiant a deilliannau ar gyfer yr holl ddysgwyr yng Nghymru. Fodd bynnag, nid yw Estyn yn gorff mae’n ofynnol iddo weithredu’n unol â’r Cod, ac nid yw’r Ddeddf yn gosod unrhyw ofynion statudol ar Estyn mewn perthynas â materion trefniadaeth ysgolion. Felly, fel corff yr ymgynghorir ag ef, bydd Estyn yn rhoi eu barn ddim ond ar gryfderau cyffredinol cynigion trefniadaeth ysgolion.

Mae Estyn wedi ystyried agweddau addysgol y cynigion. Cafodd yr ymateb llawn oddi wrth Estyn ei gynnwys fel Atodiad i’r adroddiad hwn. Fodd bynnag, dyma grynodeb ohono:

***“Mae Estyn yn ystyried bod y cynnig yn debygol o gynnal safon y ddarpariaeth addysg yn yr ardal, o leiaf.***

Mae’r Cyngor yn cydnabod ymateb Estyn.

## LLAIS Y DYSGWR

Mae gan bobl ifanc yr hawl i fynegi eu barn ar bob mater sy'n effeithio arnynt ac i'w barn gael ei glywed a chael ystyriaeth briodol yn unol â'u hoed a'u haeddfedrwydd.

### Ymgysylltiad Disgyblion / Cyngor Ysgol

Mae'r Cyngor wedi cydnabod bod llais pobl ifanc yn ymwneud â'u cynnwys fel rhai sy'n cymryd rhan weithredol mewn datblygu, rheoli a gwella eu profiad addysgol ac fel myfyrwyr. Mae angen i hynny fod wrth galon y gwaith cynllunio, darparu ac arfarnu.

Bydd y Tîm Cymunedau Dysgu Cynaliadwy yng Nghaerffili yn sicrhau, wrth gyflwyno unrhyw gynnig, bod trefniadau addas yn cael eu gwneud i ymgynghori â disgyblion a'u cynnwys nhw drwy gydol y broses. Yn y ddogfen ymgynghori gychwynnol, cafodd penderfyniad ei wneud i ymgysylltu â phob grŵp blwyddyn yn y ddwy ysgol ac nid sampl gynrychioliadol yn unig, gyda chymorth y timau addysgu lleol.

Cafodd crynodeb o ymgynghoriad addas i blant ei gynhyrchu i helpu'r broses ymgynghori gyda disgyblion i gyflwyno gwybodaeth mewn modd sy'n berthnasol i'w dealltwriaeth debygol, gan ganiatáu iddyn nhw gymryd rhan yn y broses ymgynghori a ffurfio barn wybodus.

### Ysgol y mae'r Cynnig yn effeithio'n uniongyrchol arni


Mae'r cynnig yn effeithio'n uniongyrchol ar ddisgyblion Ysgol y Lawnt ac Ysgol Gynradd Rhymni Uchaf. Cafodd y Cynghorau Ysgol, y Cynghorau Eco a charfannau disgyblion ehangach eu hannog i gymryd rhan yn y broses ymgynghori drwy gyfres o sesiynau rhyngweithiol â chymorth.


Cwestiynau a gafodd eu gofyn i'r disgyblion oedd:


- Ydych chi'n cytuno â'r hyn rydyn ni'n bwriadu ei wneud?
- Oes gennych chi unrhyw syniadau o'r hyn rydych chi ei eisiau mewn ysgol newydd?
- Oes gennych chi unrhyw syniadau eraill hoffech chi i ni eu hystyried?


Mae eu hymatebion wedi'u crynhoi isod

# Ysgol Y Lawnt:

















Rhai syniadau a safbwyntiau.

*Some ideas and opinions.*



Delweddau o sesiwn ymgynghori gyda disgyblion Ysgol y Lawnt

## Ysgol Gynradd Rhymni Uchaf

*"We like the proposal; we want to keep our teachers; We like the new location; We would be happy to work with children from another school; I think the new school looks spacious; its only down the road; it would be nice as all of us will be in one building and not separate from infants" – Student Council*





Delweddau o Sesiynau Ymgynghori a gynhaliwyd gyda Chyngor y Myfyrwyr yn Ysgol Gynradd Rhymni Ucha

**Ysgolion eraill lle nodwyd y bydd y datblygiad yn effeithio arnynt**

Cysylltwyd â Phenaethiaid ysgolion lleol eraill yr ardal yn ystod y cyfnod ymgynghori a gwahoddwyd yr ysgolion i ddarparu eu hymatebion fel rhan o'r broses ymgynghori. Lle mae gwybodaeth wedi'i chyflwyno, caiff ymatebion eu cynnwys fel rhan o'r atodiad ar wahân sydd ar gael i'r Cabinet.

## YSTYRIAETHAU ERAILL

**Eglurhad i'r Ymgynghori**

Wrth ddadansoddi'r holl sylwadau mewn ymateb i'r ymgynghoriad a ddaeth i law fel rhan o'r cyfnod ymgynghori, daeth nifer o themâu i'r amlwg.

**Tabl 3: Crynodeb o themâu'r ymatebion**

| Thema | Trosolwg | Nifer y Cyfeiriadau |
|---|---|---|
| **Lleoliad Arfaethedig** | Pellter Teithio | 4 |
| | Diogelwch y Safle | 2 |
| | Mynediad a Thraffig y Safle | 4 |
| **Dyluniad yr Ysgol** | Gwaith Celf Cysyniadol | 3 |
| | Cyfleusterau | 4 |
| | Cyfeiriad y Safle | 1 |

| | | |
|---|---|---|
| **Effaith ar y Gymraeg** | Ysgolion Cymraeg a Saesneg (cynseiliau) | 2 |
| | Swyddogaethau Annibynnol yr Ysgolion | 3 |
| | Gweithrediadau ar y Safle | 1 |
| | Cydlyniant Cymunedol | 1 |
| **Cyllid** | Fformiwla Ariannu Ysgolion | 2 |
| | Cyllid a Chost y Prosiect | 1 |
| **Llinellau Amser y Prosiect** | Llinell Amser y Broses | 1 |
| | Dyddiad Meddiannu Arfaethedig | 1 |

Er mwyn cynorthwyo'r Cabinet yn y broses benderfynu, bydd yr wybodaeth ganlynol yn cael ei darparu gan Swyddogion y Cyngor sy'n ymwneud â llunio'r cynnig drwy ymateb er mwyn cael eglurhad gyda rhesymau ategol.

**Lleoliad Arfaethedig**

- Pellter Teithio

*Cododd detholiad o ymgyngoreion bryderon ynghylch effaith y lleoliad newydd ar y rhai sy'n cerdded i'r ysgol ar hyn o bryd, yn ogystal, nodwyd pryder ynglŷn â thynnu Ysgol y Lawnt allan o ganol Tref Rhymni a'i dalgylch canfyddedig.* Mae'r pellter rhwng y ddwy ysgol a safle'r adeilad newydd arfaethedig yn llai na milltir ar ei uchafswm. Fel yr amlinellwyd yn y Ddogfen Ymgynghori, rhagwelir mai bychan iawn fydd effaith debygol trefniadau teithio gwahanol o ganlyniad i'r cynnig, er y cydnabyddir y gallai rhai disgyblion fod yn byw yn agosach at y safle newydd ac eraill, fel arall, yn byw ymhellach er bod y gwahaniaeth rhwng y safleoedd yn fach iawn.

Dylid nodi bod dalgylchoedd y ddwy ysgol yn ehangach nag ardal Tref Rhymni yn unig, yn enwedig mewn perthynas ag Ysgol y Lawnt, sy'n cynnwys disgyblion dalgylch o gyn belled i'r de â Thredegar Newydd hyd at ffin fwyaf gogleddol yr Awdurdod. Fel y cyfryw, mae Caerffili yn cydymffurfio â gofynion Mesur Teithio gan Ddysgwyr (Cymru) 2008 trwy ddarparu cludiant i ddisgyblion o oedran ysgol statudol yn unol â'n polisi cludiant unigol. Mae polisi cludiant Caerffili yn fwy hael na'r gofyniad deddfwriaethol gan ddarparu cludiant i'r ysgol 'berthnasol' (hynny yw, y dalgylch neu'r ysgol agosaf) o fwy na phellter o 1.5 milltir. Mae hyn yn berthnasol i ysgolion cyfrwng Cymraeg a Saesneg.

- Diogelwch y Safle

*Cododd ymgyngoreion bryderon ynghylch diogelwch y safle, er enghraifft, ffensys, rhandiroedd a choedwigoedd.* Er eglurder, er nad oes unrhyw broses ddylunio ffurfiol wedi'i chynnal hyd yma, o leiaf bydd asesiad risg trylwyr o safle'r ysgol, gan ystyried diogelwch y safle, unrhyw hawliau tramwy cyhoeddus, trefniadau rheoli traffig a chyflwr yr holl adeiladau, yn cynorthwyo'r

Awdurdod Lleol ac ysgolion i wneud trefniadau priodol i reoli'r risgiau hynny'n briodol a sicrhau bod mesurau allanol a mewnol perthnasol yn cael eu rhoi ar waith, er enghraifft, ffensys ar hyd y terfyn, mecanweithiau cloi, goleuadau diogelwch, prosesau mewngofnodi ac ati.

Pan fydd yn weithredol, cyfrifoldeb y pennaeth a'r corff llywodraethu yw sicrhau bod safle'r ysgol a'i adeilad(au) yn ddiogel. Bydd y trefniadau hyn yn amrywio o ysgol i ysgol yn dibynnu ar natur y safle ac oedran y disgyblion ar y gofrestr.

- Mynediad a Thraffig y Safle

*Mynegodd llond llaw o ymgyngoreion bryderon ynghylch lleoliad y safle, y rhwydwaith ffyrdd a'r effaith bosibl ar reoli traffig a llif traffig yn yr ardal arfaethedig.* Bwriad y Cyngor bob amser yw darparu system drafnidiaeth sy'n ceisio sicrhau bod disgyblion yn gallu cael mynediad diogel ac esmwyth i'w haddysg.

Mae nifer o ddulliau 'Teithio Diogel', cyn belled ag y bo'n rhesymol ymarferol, eisoes wedi'u sefydlu, gan gynnwys goleuadau a llwybrau troed dynodedig. Yn ystod ymweliad safle cychwynnol gan y tîm Cymunedau Dysgu Cynaliadwy, nodwyd y gallai'r ffordd fynediad, y mannau parcio a'r mannau troi dynodedig i fysiau/tacsis gael eu gwella, yn enwedig ar gyfer Ysgol y Lawnt, fel rhan o'r broses dylunio safle newydd i liniaru unrhyw bryderon lleol o ran traffig a bydd hyn yn cael ei gymryd i ystyriaeth yn ystod y camau perthnasol wrth i'r cynnig fynd yn ei flaen.

**Dyluniad yr Ysgol**

- Gwaith Celf Cysyniadol

*Fel rhan o'r ymatebion i'r ymgynghoriad, codwyd cwestiynau mewn perthynas â chyfluniad a chynllun yr ysgol, fel y dangosir yn y diagramau a ddarparwyd yn y Ddogfen Ymgynghori.* Dylid pwysleisio mai dyluniadau cysyniadol yn unig oedd y delweddau ac nid oes proses ddylunio ffurfiol wedi'i chynnal gan mai bwriad y broses ymgynghori yw cael barn rhanddeiliaid a fydd yn llywio'r cynnig ac unrhyw gynlluniau dilynol wrth fynd ymlaen.

- Cyfleusterau

*Codwyd cwestiynau ynghylch y math o gyfleusterau a fyddai ar gael ar y safle newydd, er enghraifft, gofal plant, gwasanaethau cofleidiol a darpariaeth Anghenion Dysgu Ychwanegol.* Fel rhan o'r broses ymgynghori, nododd y Cyngor fwriad i ddefnyddio'r safle a nodwyd i ddarparu'r cyfleusterau canlynol:

- Cyfleusterau ysgol gynradd ar gyfer Ysgol y Lawnt ac Ysgol Gynradd Rhymni Uchaf
- Gofal plant
- Darpariaeth Canolfan Adnoddau Arbennig i bob ysgol, un gydag 8 lle cyfrwng Cymraeg a'r llall yn darparu 8 lle cyfrwng Saesneg.
- 'Parth diogel' y gellir ei ddefnyddio gan y gymuned ehangach.

Dylid nodi unwaith eto nad oes unrhyw ddyluniadau ffurfiol ar waith ac mae'r modd y bydd y rhain yn cael eu cyflawni yn dal i gael ei adolygu, yn seiliedig ar adborth rhanddeiliaid.

- Cyfeiriad y Safle

*Cododd detholiad o ymgyngoreion bryderon ynglŷn â chynllun a chyfeiriad yr ysgol a sut y byddai mynediad i amwynderau allanol yn cael ei rannu'n deg rhwng y ddwy ysgol. Yn ogystal, cafwyd sylwadau hefyd ynglŷn â'r potensial am 2 adeilad ysgol unigol ar y safle.* Er nad oes unrhyw ddyluniadau ffurfiol wedi eu datblygu ac, fel yr amlinellwyd uchod, er mai gwaith celf cysyniadol yn unig oedd y delweddau a ddefnyddiwyd yn y Ddogfen Ymgynghori, bwriad y Cyngor yw sicrhau y byddai unrhyw ddatblygiad yn sicrhau y byddai'r ddwy ysgol yn elwa o safbwynt esthetig ac ymarferol, yn ogystal â manteision darparu adeilad sero net i'r amgylchedd a chostau ynni.

**Effaith ar y Gymraeg**

- Ysgolion Cymraeg a Saesneg (cynseiliau)

*Codwyd pryderon gan ymgyngoreion, yn ogystal ag yn ystod cyfarfod y Pwyllgor Craffu, ynghylch yr effaith ganfyddedig ar y Gymraeg a'r posibilrwydd o wanhau o ganlyniad i leoli ysgolion cyfrwng Cymraeg a chyfrwng Saesneg gyda'i gilydd.* Fel yr amlinellwyd yn y Ddogfen Ymgynghori a'r Asesiad Effaith Integredig cysylltiedig, rhoddwyd ystyriaeth i bryderon posibl lle gallai'r gymuned Gymraeg ei hiaith ddefnyddio'r Saesneg pan fyddan nhw i gyd yn dod at ei gilydd.

1) Rhaid pwysleisio y byddai'r ddwy ysgol yn parhau'n endidau annibynnol a byddai pob ysgol yn meddiannu eu hardal addysgu eu hunain o fewn yr adeilad newydd. Bydd hyn hefyd yn ymestyn i'r gofod y tu allan a byddai gan y ddwy set o ddisgyblion eu mynedfeydd annibynnol eu hunain.

2) Mae unrhyw gyfleusterau cyd-ddefnyddio arfaethedig yn dal i gael eu dylunio, a bydd y Cyngor yn gweithio'n agos gyda'r ddwy ysgol i ddatblygu dull addas i'r diben sy'n darparu cyfleuster sy'n ymarferol ar gyfer cyflwyno'r cwricwlwm a'i ddefnyddio gan y gymuned ehangach. Er enghraifft, o ganlyniad i ddirprwyaeth o gynrychiolwyr ysgolion, aelodau a swyddogion yn ymweld ag Ysgol Gynradd Gabalfa ac Ysgol Gymraeg Glan Ceubal yng Nghaerdydd, sy'n gweithredu mewn modd tebyg i'r hyn sy'n cael ei gynnig ar hyn o bryd, roedd yr ysgolion wedi'u sefydlu'n glir ac yn gweithredu'n annibynnol ac nid oedd unrhyw effaith negyddol ar y defnydd o iaith yn y naill ysgol na'r llall. Cydnabuwyd drwy drafodaethau gyda'r ddau bennaeth yng Nghaerdydd bod gwersi i'w dysgu o safbwynt y cynllun, er enghraifft, sut roedd gan y dderbynfa a rennir ar gyfer ymwelwyr ddau dderbynnydd annibynnol ar waith, un ar gyfer yr ysgol cyfrwng Cymraeg ac un ar gyfer yr ysgol cyfrwng Saesneg ac mae hyn wedi ei nodi gan swyddogion.

3) Yn ogystal â'r safle cyfeiriol yng Nghaerdydd a grybwyllir yn y Ddogfen Ymgynghori, mae cynsail eisoes yn bodoli o fewn Caerffili lle mae Ysgol Bro Allta ac Ysgol Gynradd Ystrad Mynach, un cyfrwng Cymraeg a'r llall yn gyfrwng Saesneg, yn gweithredu'n llwyddiannus o safle cyffredin, fel yr amlygwyd yng nghyfarfod y Pwyllgor Craffu.
4) Fel y nodwyd yn rhan o'r Asesiad Effaith Integredig a gynhaliwyd ar gyfer y cynnig, a gyhoeddwyd fel rhan o'r pecyn ymgynghori, mae'r Cyngor yn bwriadu lliniaru unrhyw effaith negyddol ar y Gymraeg cyn belled ag sy'n rhesymol bosibl trwy ddefnyddio'r safle hwn fel archdeip wrth fanteisio'n llawn ar y cyfle i wneud Ysgol Gynradd Rhymni Uchaf yn ysgol enghreifftiol lle bydd yn defnyddio'r Gymraeg yn fwy. Mae'n bosibl cyflawni hyn trwy'r cynllun Cymraeg i Blant, ymgysylltu â chwrs Cymraeg i'r Teulu, gefeillio posibl yr ysgolion lle gellir rhannu diwylliannau'r ysgolion a'r posibilrwydd o gynllun mentora Cymraeg lle mae disgyblion Ysgol y Lawnt yn mentora gwersi Cymraeg eu cyfoedion yn

Ysgol Gynradd Rhymni Uchaf. Hefyd, rhoddir ystyriaeth i osod targedau yn unol â'r papur gwyn Addysg Gymraeg i wella'r ddarpariaeth Gymraeg mewn ysgolion a gynhelir nad ydyn nhw eisoes yn ysgolion cyfrwng Cymraeg dynodedig. Bydd trafodaethau a chymorth pellach yn cael eu cynnal gyda'r ddwy ysgol wrth i'r cynnig fynd rhagddo i ymchwilio i'r opsiynau sydd ar gael i gynorthwyo'r dyhead hwn.

- Swyddogaethau Annibynnol yr Ysgolion

*Cafwyd sylwadau am bwysigrwydd sefydlu trefniadau ymarferol digonol i alluogi'r ddwy ysgol i weithredu'n annibynnol ac yn eu dewis iaith.* Unwaith eto, mae'n rhaid pwysleisio y byddai'r ddwy ysgol yn parhau'n endidau annibynnol a phob ysgol yn meddiannu ei ardal addysgu ei hun yn yr adeilad newydd. Bydd hyn hefyd yn ymestyn i'r gofod y tu allan a byddai gan y ddwy set o ddisgyblion eu mynedfeydd eu hunain.

Bydd yr adeilad newydd yn ymgorffori'r ddwy ysgol gynradd gyda chyfleusterau cysylltiedig yn ogystal â gofal plant a Chanolfan Adnoddau Arbennig ar wahân sy'n cynnig darpariaeth ar gyfer disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol ym mhob ysgol, un gydag 8 lle cyfrwng Cymraeg a'r llall yn darparu 8 lle cyfrwng Saesneg.

- Gweithrediadau ar y Safle

*Yn ategol i'r sylwadau a gafwyd yn ymwneud â swyddogaethau annibynnol yr ysgolion, cafwyd sylwadau hefyd mewn perthynas â sut y byddai safle ar y cyd yn gweithredu a'r angen am gydraddoldeb rhwng y ddwy ysgol o ran gwneud penderfyniadau.* Bydd pob ysgol yn cadw ei threfniadau presennol o ran Pennaeth a Chorff Llywodraethu; fodd bynnag, bydd cyd-bwyllgor yn cael ei sefydlu yn cynnwys cynrychiolwyr o'r ddwy ysgol i sefydlu telerau ac amodau ynglŷn â'r mecanweithiau gwaith yn ymwneud â chynnal a chadw, mynediad a pholisïau cyffredinol yn ymwneud â'r safle yn ei gyfanrwydd.

- Cydlyniant Cymunedol

*Cafwyd safbwyntiau ynglŷn â'r effaith ar y Gymraeg trwy gydleoli a sut y gellid hyrwyddo hyn yn y gymuned ehangach.* Fel rhan o'r Rhaglen Cymunedau Dysgu Cynaliadwy, un o'r Amcanion Buddsoddi allweddol yw sicrhau'r defnydd gorau o seilwaith ac adnoddau, a sicrhau hyblygrwydd ein hasedau er mwyn gwneud y mwyaf o'r gofod a'r cyfleusterau sydd ar gael i'n rhanddeiliaid ni.

Er nad oes unrhyw ddyluniadau terfynol wedi'u pennu, mae awydd i annog a hwyluso defnydd cymunedol o'r ased mewn ffordd ddiogel a hylaw, gyda'r bwriad o ddarparu cyfleoedd i ddisgyblion, teuluoedd a'r gymuned ehangach ar gyfer gweithgareddau addysgol a hamdden. Bydd unrhyw ddyluniad/gyfluniad o gyfleusterau cymunedol a rennir yn sicrhau y gellir lleihau unrhyw amharu ar y Gymraeg o ganlyniad i'r gweithgareddau hyn yn ôl yr angen ac, felly, cynorthwyo pob ysgol i ddarparu gweithgareddau naill ai'n annibynnol neu ar yr un pryd os oes angen a thrwy ddewis iaith pob ysgol. Gan fod y ddwy ysgol yn meddiannu'r un safle, rhagwelir y bydd hynny hefyd yn galluogi rhagor o amlygiad i'r Gymraeg a chyfleoedd i'w defnyddio trwy ategu dyheadau'r Papur Gwyn Addysg Gymraeg mewn perthynas ag Ysgol Gynradd Rhymni Uchaf.

Yn amodol ar gymeradwyaeth y Cabinet a Llywodraeth Cymru i fwrw ymlaen, bydd ymgysylltu pellach yn digwydd gyda'r rhanddeiliaid perthnasol i lunio'r adeilad newydd a'i gyfleusterau yn ystod y cam cynllunio priodol.

**Cyllid**

- Fformiwla Ariannu Ysgolion

*Holodd aelod o'r pwyllgor craffu am y trefniadau ariannu ar gyfer y ddwy ysgol.* Mae'r Awdurdod Lleol yn defnyddio fformiwla ariannu i benderfynu faint o arian y dylid ei ddyrannu i bob ysgol. Yn rhan o'r cynnig hwn, ni fyddai'r dyraniad presennol i bob ysgol yn cael ei newid gan fod angen cymeradwyaeth y Cabinet i wneud hynny, sydd y tu allan i gwmpas y broses ymgynghori hon.

Yn ogystal, yn rhan o'r ymatebion i'r ymgynghoriad, codwyd cwestiwn ynghylch unrhyw arbedion a gyflawnir o ganlyniad i'r cynnig. Gan fod y cynnig presennol yn canolbwyntio ar adeilad carbon sero net sy'n cael ei gyd-ddefnyddio, byddai'r ddwy ysgol, o ganlyniad, yn elwa'n uniongyrchol o unrhyw arbedion ar filiau ynni o gymharu â'u safleoedd presennol.

- Cyllid a Chost y Prosiect

*Er mwyn darparu eglurder ychwanegol ynghylch y mecanweithiau ariannu ar gyfer y cynnig.* Yn amodol ar gymeradwyaeth y Cabinet, bydd y cynnig yn cael ei ariannu yn rhan o'r Rhaglen Cymunedau Dysgu Cynaliadwy. Mae hon yn fenter a ariennir ar y cyd rhwng yr Awdurdod Lleol a Llywodraeth Cymru. Fel gyda phob cynllun a nodir o dan y rhaglen hon, mae cyfradd ymyrraeth gyffredinol o 65% gan Lywodraeth Cymru a 35% gan yr Awdurdod Lleol, lle nad yw eithriadau'n berthnasol. Cyfanswm cost arfaethedig y prosiect ar gyfer symud Ysgol y Lawnt ac Ysgol Gynradd Rhymni Uchaf yw tua £17.6 miliwn. Mae'r costau'n seiliedig ar Fwletin Adeiladu 98 a lwfans cost 2024 Llywodraeth Cymru. Yn amodol ar gymeradwyaeth i fwrw ymlaen, bydd angen i Syrfëwr Meintiau'r Cyngor gynnal gwiriad pellach cyn cyflwyno'r gost derfynol i Lywodraeth Cymru. Bydd cyfraniad yr Awdurdod yn cael ei neilltuo o gronfa wrth gefn Llunio Lleoedd yr Awdurdod fel y cytunwyd mewn egwyddor gan y Cabinet yn ystod eu cyfarfod ar 28 Mehefin 2023, pan gytunodd i fynd ymlaen i ymgynghoriad.

**Llinellau Amser y Prosiect**

*Holodd Estyn a'r Pwyllgor Craffu am yllinell amser ar gyfer y broses a'r dyddiad cwblhau disgwyliedig.*

- Llinell Amser y Broses

Yn amodol ar gymeradwyaeth yn ystod pob cam, amlinellir y broses fel a ganlyn:

| **Tabl 4: Amserlen y Broses** (yn amodol ar gymeradwyaeth i symud ymlaen ym mhob cam) | |
|---|---|
| **Ymgynghoriad yn dod i ben** | Dydd Iau 9 Tachwedd 2023 |
| **Craffu** (i ystyried Adroddiad Ymgynghori a chadarnhau cyhoeddi Hysbysiad Statudol) | Dydd Mawrth 28 Tachwedd 2023 |
| **Cabinet** (i ystyried Adroddiad Ymgynghori a chytuno i gyhoeddi Hysbysiad Statudol) | Dydd Mercher 13 Rhagfyr 2023 |
| Hysbysiad Statudol / Cyfnod Gwrthwynebiad yn Agor | Dydd Llun 8 Ionawr 2024 |
| Diwedd y Cyfnod Hysbysiad Statudol / Gwrthwynebiad | Dydd Llun 5 Chwefror 2024 |
| **Sgriwtini** (i ystyried Adroddiad Gwrthwynebiad) | Dydd Mawrth 12 Mawrth 2024 |
| **Cabinet** (i wneud penderfyniad terfynol) | Dydd Mercher 20 Mawrth 2024 |

Yn amodol ar benderfyniad terfynol i fwrw ymlaen, byddai'r broses wedyn yn amodol ar y prosesau cymeradwyo Ceisiadau Cynllunio a Draenio Cynaliadwy, a arweinir gan Dîm Gwasanaethau Eiddo profiadol y Cyngor.

Yn ogystal, bydd Achos Busnes Amlinellol yn cael ei gyflwyno i Lywodraeth Cymru yn ystod y cam dylunio/tendro priodol yn unol â'r broses Achos Busnes 3 cham a ddiwygiwyd yn ddiweddar.

- Dyddiad Meddiannu Arfaethedig

Yn amodol ar gymeradwyaeth yn ystod pob cam a amlinellir uchod, y dyddiad meddiannu a ragwelir ar hyn o bryd yw mis Medi 2027.

**Dewisiadau Amgen Rhesymol a Nodwyd**

Yn dilyn y cyfnod ymgynghori, mae'n ofynnol i'r Cyngor gynnal asesiad pellach o'r cynnig. Diben yr asesiad pellach hwn yw ystyried unrhyw wybodaeth bellach sydd wedi dod i law drwy'r ymgynghoriad neu fel arall.

Fel yr amlinellwyd yn y Ddogfen Ymgynghori, y cynnig sy'n cael ei ystyried yw creu adeiladau ysgol carbon sero net cynaliadwy gyda chyfleusterau a rennir, i wneud lle ar gyfer Ysgol y Lawnt, Ysgol Gynradd Rhymni Uchaf a defnydd cymunedol. Hwn oedd yr hoff opsiwn a gafodd ei nodi drwy'r broses arfarnu opsiynau a'i sgorio yn ôl ffactorau llwyddiant critigol sef Cydweddiad Strategol, Cydweddiad Addysgol, Hygyrchedd, Cydweddiad Ariannol a'r Effaith Amgylcheddol.

Trwy'r broses ymgynghori a'r sylwadau a ddychwelwyd, mae'r Cyngor yn cydnabod awgrymiadau yn ymwneud ag ailddatblygu safle presennol Ysgol y Lawnt; darparu 2 adeilad ar wahân ar y safle arfaethedig a hefyd y potensial i wneud lle i Ysgol Gynradd Rhymni Uchaf gydag ysgol cyfrwng Saesneg arall ar y safle newydd, sef Ysgol Gynradd Bryn Awel a symud Ysgol y Lawnt i'r adeilad gwag. Dylid nodi bod yr holl awgrymiadau hyn wedi'u hystyried a'u diystyru yn y cam arfarnu opsiynau. Felly, ni chafodd unrhyw opsiynau amgen rhesymol eu hamlygu o ganlyniad i'r Broses Ymgynghori.

## CAMAU NESAF

**Argymhelliad**

Wrth adolygu'r cynnig i ystyried unrhyw wybodaeth bellach sydd wedi dod ymlaen trwy'r ymgynghori ac wrth ystyried yr effaith debygol ar ansawdd a safonau mewn addysg, y gymuned a threfniadau teithio, argymhelliad yr adroddiad hwn yw bod y cynnig yn cael ei symud ymlaen fel yr amlinellir yn y Ddogfen Ymgynghori:

- **Adleoli Ysgol Y Lawnt ac Ysgol Gynradd Rhymni Uchaf**

**Mae'r cynnig am geisio creu adeiladau ysgol newydd Carbon Sero Net sy'n cynnwys cyfleusterau wedi'u rhannu ar gyfer Ysgol y Lawnt, Ysgol Gynradd Rhymni Uchaf ac at ddefnydd y gymuned.**

**Gwneud Penderfyniad**

Er mwyn cyflawni ein diwygiadau ar draws y system gyfan, bydd angen ymrwymiad mentrus arnom i gydweithredu effeithiol ynghyd ag integreiddio gwasanaethau lle bo hynny'n briodol. Bydd hyn yn cynnwys Llywodraeth Cymru, y proffesiwn addysgu a'r gweithlu addysg ehangach, ein partneriaid allweddol mewn awdurdodau lleol, awdurdodau esgobaethol, gwasanaethau rhanbarthol, Estyn ac eraill. Bydd gweithredu unrhyw gynnig yn llwyddiannus yn gofyn am ymgysylltiad effeithiol a gonest rhwng pob agwedd ar y system addysg a'n cymunedau lleol ac rydym yn ymrwymedig i ddarparu'r amodau er mwyn galluogi hyn i ddigwydd.

Bydd gofyn i Aelodau'r Cabinet:

a) Ystyried yr wybodaeth sydd yn yr Adroddiad Ymgynghori.
b) Cymeradwyo'r argymhelliad i symud ymlaen i Hysbysiad Statudol, trwy bleidlais, mewn perthynas â'r cynnig

**Adrodd, Hysbysu a Chyhoeddi Gwybodaeth**

Pe bai'r Cabinet yn penderfynu bwrw ymlaen â'r cynnig, bydd Hysbysiad Statudol yn cael ei gyhoeddi sy'n darparu cyfnod rhybudd o 28 diwrnod ar gyfer gwrthwynebiadau. Mae Deddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013 yn darparu bod unrhyw un sy'n dymuno gwrthwynebu cynnig trefniadaeth ysgol yn cael cyfle i wneud hynny. Er mwyn cael eu hystyried yn wrthwynebiadau statudol, rhaid cyflwyno gwrthwynebiadau yn ysgrifenedig a'u hanfon at y Cyngor o fewn y cyfnod o 28 diwrnod.

Yna bydd y Cabinet yn ystyried canlyniad yr Hysbysiad Statudol mewn cyfarfod yn y dyfodol ac yn penderfynu a ddylid gweithredu'r cynnig ar ôl rhoi ystyriaeth ddyledus i'r holl wybodaeth a ddarparwyd.

Os bydd gwrthwynebiadau, bydd y Cyngor yn cyhoeddi adroddiad gwrthwynebiad yn darparu crynodeb o'r gwrthwynebiadau ac ymateb y Cabinet i'r gwrthwynebiadau hynny o fewn 7 diwrnod neu'r diwrnod y penderfynwyd ar y cynnig. Bydd yr adroddiad hwn ar gael i bawb ei weld ar wefan y Cyngor a bydd copïau papur ar gael ar gais.

Pe bai'r Cabinet yn cymeradwyo'r cynnig, bydd Achos Busnes llawn yn cael ei gyflwyno i Weinidog Cymru i'w gymeradwyo'n derfynol a bydd y gwaith yn cychwyn.

## GWYBODAETH GEFNOGOL

**Atodiad 1 :**
Llythr Hysbysu

Dogfen Ymgynghori

Asesiad Effaith Integredig

**Atodiad 2:**

**Ymateb Llawn Estyn**

***Paratowyd yr adroddiad hwn gan Arolygwyr Ei Fawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru.***

O dan delerau Deddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013 a'i Chod cysylltiedig, mae'n ofynnol i gynigwyr anfon dogfennau ymgynghori i Estyn. Fodd bynnag, nid yw Estyn yn gorff y mae'n ofynnol iddo weithredu yn unol â'r Cod ac nid yw'r Ddeddf yn gosod unrhyw ofynion statudol ar Estyn o ran materion trefniadaeth ysgolion. Felly, fel corff yr ymgynghorir ag ef, bydd Estyn dim ond yn rhoi eu barn ar rinweddau cyffredinol cynigion trefniadaeth ysgolion. Mae Estyn wedi ystyried yr agweddau addysgol ar y cynnig ac wedi llunio'r ymateb canlynol i'r wybodaeth a ddarparwyd gan y cynigiwr.

Y cynnig yw gwneud addasiad rheoledig i adleoli Ysgol Y Lawnt ac Ysgol Gynradd Rhymni Uchaf i adeilad deuddiben a rennir ar safle newydd. Bydd y ddwy ysgol yn parhau i ddarparu addysg gynradd cyfrwng Cymraeg a Saesneg ac yn aros fel endidau ar wahân.

**Crynodeb / Casgliad**

Mae Estyn yn ystyried bod y cynnig yn debygol o gynnal safon y ddarpariaeth addysg yn yr ardal, o leiaf.

**Disgrifiad a manteision**

Mae'r awdurdod lleol wedi amlinellu rhesymeg glir ar gyfer ei gynnig. Mae'n amlinellu'n syml beth yw manteision adeiladu cyfleuster newydd ar y cyd tra'n nodi statws cyflwr cymharol wael y ddau adeilad ysgol presennol. Nid yw'r naill na'r llall o'r adeiladau ysgol presennol yn cyd-fynd yn llawn â'r Ddeddf Gwahaniaethu ar Sail Anabledd, ac mae'r awdurdod lleol yn nodi bod gan y ddwy ysgol ôl-groniad o waith cynnal a chadw. Fodd bynnag, nid yw adeiladau'r naill ysgol na'r llall ar y lefel cyflwr isaf ac nid yw'r cynnig yn nodi cwmpas na chost gwaith cynnal a chadw angenrheidiol.

Mae prif adeilad Ysgol Y Lawnt yn adeilad rhestredig Gradd II ac yn destun cyfyngiadau datblygu. Mae gan y safle ardaloedd chwarae cyfyngedig yn yr awyr agored, hefyd. Mae Ysgol Gynradd Rhymni Uchaf ar ddwy lefel ac nid oes ganddi lifft ar hyn o bryd. Y cynnig yw creu adeilad mawr, sy'n effeithlon o ran ynni, ar safle newydd gydag ystafelloedd dosbarth modern, cyfleusterau gwell yn yr awyr agored a gofodau hyblyg at ddefnydd rhanedig a chymunol.

Er bod yr awdurdod lleol yn rhoi disgrifiad clir o'r cynnig ac amserlen ragamcanol ar gyfer gweithdrefnau statudol, nid yw'n rhoi amserlen ar gyfer gweithredu'r cynigion nac ar gyfer trosglwyddo i'r safle newydd.

At ei gilydd, mae'r cynigiwr yn nodi'n glir ac yn deg y manteision a'r anfanteision disgwyliedig o gymharu â'r sefyllfa bresennol a sut byddant yn rheoli unrhyw risg. Mae'r awdurdod lleol wedi darparu Asesiad o'r Effaith ar y Gymraeg ac Asesiad o'r Effaith ar y Gymuned fel rhan o'i gynnig.

Mae'r awdurdod lleol yn amlinellu pedwar dewis amgen posibl i'w gynnig. Mae'n rhoi rhesymau addas dros wrthod yr opsiwn i godi dau adeilad ysgol newydd ar yr un safle. Fodd bynnag, nid yw'n nodi'n benodol pam mae'r posibilrwydd i ddatblygu'r naill ysgol neu'r llall yn annibynnol ar ei safle presennol wedi cael ei ddiystyru, heblaw trwy ddatgan y farn fod cyfyngiadau ar y ddau safle yn gwneud y dewis amgen hwn yn werth gwael am arian ac yn peri risg uchel.

Mae'r cynigiwr wedi ystyried effaith y newidiadau ar drefniadau teithio dysgwyr yn rhannol. Mae'n nodi'n gywir y gallai amseroedd teithio i 'leiafrif' o ddisgyblion newid o ganlyniad i leoliad newydd yr ysgol arfaethedig, ond nid yw'n ystyried faint o ddisgyblion na manylion ynghylch sut bydd yr awdurdod lleol yn delio â'r mater hwn.Mae'r awdurdod lleol yn pwysleisio ei fod yn ystyried y bydd y gwahaniaeth mewn amser a gymerir i deithio i safle'r ysgol newydd yn ddibwys gan ei fod yn gymharol agos at y ddwy ysgol bresennol.

Mae'r cynnig yn rhagweld y bydd twf cymedrol yn niferoedd y disgyblion yn y ddwy ysgol dros yr ychydig flynyddoedd nesaf, sy'n golygu y bydd angen tua 193 o leoedd ar gyfer disgyblion cyfrwng Cymraeg, a 157 o leoedd ar gyfer disgyblion cyfrwng Saesneg erbyn 2026. Ar yr un pryd, byddai lle i 525 o ddisgyblion yn yr adeilad newydd, yn ogystal â dosbarth meithrin ac 16 lle mewn canolfan adnoddau arbennig. Nid yw'r cynigiwr yn archwilio'r rheswm am leoedd dros ben yn drylwyr, heblaw nodi y gallai adeilad newydd arloesol ysgogi'r galw ac y gallai lleoedd posibl dros ben yn y ddarpariaeth cyfrwng Saesneg gael eu rheoli'n gynaliadwy trwy gydbwyso'r angen i gynyddu lleoedd yn yr ysgol cyfrwng Cymraeg.

Mae'r cynnig yn rhoi ystyriaeth glir i effaith y cynigion ar ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg o fewn yr awdurdod lleol a'r graddau y mae'r cynnig yn cefnogi'r targedau yng Nghynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg (CSCA) yr awdurdod lleol. Bydd y cynnig i drosglwyddo Ysgol Y Lawnt i adeilad ysgol newydd o safon yr 21ain ganrif gyda chapasiti cynyddol yn cyfrannu at nod yr awdurdod i gynyddu nifer y disgyblion sy'n cael mynediad at addysg cyfrwng Cymraeg ac ehangu'r cyfleoedd i ddisgyblion gael addysg trwy gyfrwng y Gymraeg. Mae'r cynnig yn rhoi ystyriaeth briodol i'r effaith negyddol bosibl ar niferoedd y disgyblion mewn ysgolion cyfrwng Cymraeg cyfagos. O ran lliniaru, mae'r awdurdod lleol wedi amlinellu'r posibilrwydd i leihau hyn trwy gynnydd rheoledig a graddol yng nghapasiti'r ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg newydd.

Mae'r cynnig yn nodi bod yr awdurdod lleol wedi neilltuo cronfa wrth gefn ar gyfer costau cyfalaf fel rhan o Raglen Cymunedau Dysgu Cynaliadwy Band B. Nid yw'r cynnig yn rhoi amcangyfrif o gost yr adeilad newydd na manylion am unrhyw arbedion posibl.

### Agweddau addysgol ar y cynnig

Nid yw'r awdurdod lleol yn rhoi ystyriaeth drylwyr yn ei gynnig i effaith y newidiadau ar ansawdd a safonau mewn addysg. Er enghraifft, er ei fod yn cyfeirio at yr adroddiadau arolygu diweddaraf ar gyfer y ddwy ysgol, nid yw'n nodi'n uniongyrchol p'un a fyddai'r newid arfaethedig yn cynorthwyo'r ysgol i fynd i'r afael ag unrhyw un o'r argymhellion a nodwyd.

Mae'r cynnig yn amlinellu mantais yr ardaloedd awyr agored estynedig sydd wedi'u cynllunio ar gyfer y safle newydd. Er enghraifft, mae'n amlygu darpariaeth MUGAgydag arwyneb 3G ac ysgol goedwig a rhandiroedd at ddefnydd disgyblion. Mae'n rhagdybio'n deg y byddai agweddau a lles disgyblion yn debygol o gael eu heffeithio'n gadarnhaol gan y cyfle cynyddol i ymgysylltu â dysgu yn yr awyr agored a chwarae corfforol trwy ddefnyddio'r adnoddau hyn. Mae'r cynnig hefyd yn dangos y gallai defnydd hyblyg o'r gofod fod o fudd i ddisgyblion trwy alluogi cyfleoedd gwerthfawr ar gyfer gweithio mewn partneriaeth rhwng y ddwy ysgol a gyda phartneriaid cymunedol. Er enghraifft, mae'r cynnig yn ystyried yr effaith gadarnhaol bosibl ar ddefnydd disgyblion, staff a'r gymuned o'r Gymraeg trwy rannu arbenigedd rhwng y ddwy ysgol a mynediad ar y cyd at yr ardal dderbynfa ddwyieithog a chyfleusterau cymunol. Fodd bynnag, nid yw'r cynnig yn rhoi ystyriaeth briodol i unrhyw effeithiau andwyol posibl sy'n deillio o ddwy ysgol yn rhannu'r un safle, fel cystadleuaeth dros ddefnyddio gofodau a rennir neu ffactorau cyfyngol eraill ar lefel weithredol a allai beryglu eu gweithredu annibynnol.

Mae'r cynnig yn ystyried yr effaith ar grwpiau bregus yn rhannol, yn enwedig y disgyblion hynny ag anghenion addysgol arbennig sy'n debygol o elwa ar ddarpariaeth dwy ganolfan adnoddau dysgu ar wahân gyda lle i wyth disgybl trwy gyfrwng y ddwy iaith. O ran hygyrchedd, bydd yr adeilad newydd yn gwbl hygyrch ac yn cydymffurfio â Deddf Cydraddoldeb 2010.

Mae’r awdurdod lleol yn nodi’n gywir y byddai’r newidiadau arfaethedig yn arwain at rywfaint o darfu ac addasu i ddisgyblion, staff a’r gymuned ehangach. Mae’r cynnig yn ceisio cynnal parhad ar gyfer y ddwy ysgol trwy gadw’r trefniadau arwain a llywodraethu presennol ar gyfer y ddwy ysgol, a thrwy gynnwys partneriaid cymunedol mewn cynlluniau i drosglwyddo agweddau presennol ar ddefnydd cymunedol. O ystyried mai’r cynnig yw adeiladu ar safle newydd, ni ddylai fod unrhyw effaith niweidiol ar brofiad disgyblion yn y naill ysgol na’r llall yn ystod y cyfnod adeiladu.

***Adroddiad wedi'i baratoi gan:***

Tîm Cymunedau Cynaliadwy ar gyfer Dysgu
Cyfarwyddiaeth Addysg a Gwasanaethau Corfforaethol
Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili
Ty Penallta
Parc Tredomen
Ystrad Mynach
CF82 7PG

Ysgolionyr21ainganrif@caerffili.gov.uk